# Y System Rheoli Amgylcheddol
# 8.1.3 Rheoli Gollyngiadau Allanol

Cyhoeddwyd: Mis Mai 2021

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Emily Ingram, Hayley Beharrell |
| **Cymeradwywyd gan:** | Heidi Smith |
| **Dyddiad Adolygu:** | Mis Mawrth 2022 |
| **Cyfeirnod y cymal:** | Ecogampws:<br>ISO14001(2015): |



# Rheoli Gollyngiadau

## 1 Diben

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl weithgareddau a wneir ar ei safleoedd yn glynu wrth y safonau uchaf o ran diogelwch, iechyd a'r amgylchedd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb safonol y Brifysgol i reoli gollyngiadau allanol. Mae'r weithdrefn hon yn sicrhau bod gan staff, myfyrwyr, tenantiaid, contractwyr a chyflenwyr Prifysgol Abertawe wybodaeth a chanllawiau clir i'w galluogi i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiad amgylcheddol, ac adfer ar ei ôl.

Nid yw'r ddogfen hon yn **berthnasol i ollyngiadau mewn labordai neu ddigwyddiadau mewnol eraill.**

## 2 Diffiniadau

**Gollyngiad Allanol:** Gollyngiad sy'n digwydd y tu allan i adeilad neu ar gampysau’r Brifysgol neu gyfleusterau cysylltiedig.

**Cynllun Rheoli Digwyddiadau**: Yn amlinellu gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer rheoli digwyddiadau mawr a allai beryglu iechyd a diogelwch cymuned y Brifysgol, tarfu ar ei gweithgareddau addysgu, ymchwil a gweinyddu, a niweidio ei hisadeiledd, ei systemau neu ei henw da.

**Gollyngiad:** Pan fydd sylwedd (peryglus ai peidio) yn dianc o'i brif gynhwysydd/cynhwysydd gwreiddiol (neu uned gynnwys arall) ac mae ganddo'r potensial i achosi effaith amgylcheddol niweidiol. Yn y Brifysgol, gallai gollyngiad gynnwys olew yn dianc (gan gynnwys gwres a choginio), gwastraff solet/hylifol a chemegion. Mae llygredd dŵr tân sy'n mynd i'r system ddraenio hefyd yn cael ei ystyried yn ollyngiad.

- **Gollyngiad bach** – Gollyngiad bach (diamedr o <5 litr neu <1m) sy'n gallu cael ei gynnwys a gellir ymdrin ag ef yn lleol
- **Gollyngiad Sylweddol** – Gollyngiad mwy (>5 metr), lle mae angen cymorth i'w gynnwys
- **Gollyngiad Mawr** – Gollyngiad sy'n fwy na >50 litr a lle mae’r sylwedd sydd wedi gollwng wedi mynd, neu gallai fynd, i mewn i system ddraenio, dŵr wyneb neu dir heb ei drin

## 3 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| Tîm Cyfrifoldeb Corfforaethol | • Gweithio gyda Chyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol (UGP) i nodi risgiau posib o lygredd a chynlluniau atal cyfatebol<br>• Darparu gwybodaeth a chanllawiau i Gyfadrannau/UGP a phartïon allanol (e.e. tenantiaid, contractwyr a chyflenwyr) ar atal gollyngiadau ac ymateb iddynt<br>• Trefnu hyfforddiant a phrofi gweithdrefnau gollyngiadau'n achlysurol |

| | |
|---|---|
| | • Cynnig cymorth i aelodau staff a myfyrwyr, yn ôl yr angen |
| Deon Gweithredol a, Dirprwy Is-ganghellor Cyfadran a Phennaeth Gweithrediadau/Cyfarwyddwr UGP | • Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn y Gyfadran/UGP yn ymwybodol o drefniadau rheoli gollyngiadau lleol a rhai'r Brifysgol, a bod mesurau atal llygredd yn cael eu rhoi ar waith (fel a nodwyd)<br>• Sicrhau bod adnoddau digonol (gan gynnwys cyllidebau) ar gyfer offer/deunyddiau ymateb i ollyngiadau ar gael yn y Gyfadran/Uned Gwasanaeth Proffesiynol |
| Rheolwyr Cyfadran/Adrannau UGP | • Asesu a datblygu (lle bo'n briodol) Cynllun Rheoli Digwyddiadau'r Gyfadran/UGP, sy'n cynnwys rheoli gollyngiadau<br>• Sicrhau bod pecynnau gollyngiadau a PPE digonol a phriodol ar gael, e.e. ar gyfer olew, cemegion, sylweddau biolegol etc.<br>• Sicrhau bod digon o ymatebwyr i ollyngiadau ar gael yn y Gyfadran/UGP<br>• Cadarnhau bod anghenion hyfforddi staff a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gweithio gyda chemegion peryglus ac olew/tanwydd wedi'u nodi mewn cydweithrediad â Swyddog yr Amgylchedd a'r Arweinydd Iechyd a Diogelwch<br>• Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi a bod asesiadau COSHH, gan gynnwys ymateb i ollyngiadau, wedi'u cwblhau<br>• Sicrhau bod timoedd ymateb i ollyngiadau cymwys yn y Gyfadran/UGP ar waith i ymdrin â gollyngiadau lleol |
| Tîm Cydnerthedd a Pharhad Busnes | • Datblygu gwydnwch y Brifysgol yn wyneb amhariad<br>• Diogelu'r gallu i gyflawni allbynnau ac amcanion allweddol, gan wreiddio prosesau ac adnoddau i sicrhau diogelwch rhanddeiliaid a chyflawni gwaith cynllunio, atal ac ymateb mewn sefyllfaoedd brys<br>• Cydlynu'r contract ymateb i ollyngiadau allanol |
| Rheolwr Gwasanaethau Diogelwch | • Sicrhau bod y Tîm Diogelwch yn gymwys ac yn gallu ymateb i ollyngiadau a allai ofyn am gymorth ychwanegol ar gyfer yr ymateb lleol (Cyfadran/UGP) |
| Tîm Diogelwch | • Sicrhau bod pecynnau gollyngiadau a PPE digonol a phriodol ar gael a monitro stoc<br>• Ymdrin â gollyngiadau ar diroedd y Brifysgol a achosir gan gerbydau staff neu ymwelwyr, ar y cyd â'r Tîm Tiroedd<br>• Cydlynu'r broses uwchgyfeirio digwyddiadau, fel a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Digwyddiadau |

| | |
|---|---|
| Y Tîm Tiroedd (Ystadau a Rheoli Cyfleusterau) | • Ymdrin â gollyngiadau ar diroedd y Brifysgol a achosir gan gerbydau staff neu ymwelwyr, ar y cyd â'r Tîm Diogelwch<br>• Sicrhau bod pecynnau gollyngiadau a PPE digonol a phriodol ar gael a monitro stoc |
| Pennaeth Prosiectau a Gwasanaethau Technegol (Ystadau a Rheoli Cyfleusterau) | • Yn unol â chyfrifoldebau 'Rheolwyr Adrannau Uned Gwasanaeth Proffesiynol', sicrhau bod mesurau atal llygredd yn cael eu rhoi ar waith (fel a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Digwyddiadau) gan gynnwys, (ymhlith mesurau eraill), sicrhau bod offer/deunyddiau ymateb i ollyngiadau digonol ar gael ar gyfer storio olew gwresogi |
| Tîm Prosiectau a Gwasanaethau Technegol (Ystadau a Rheoli Cyfleusterau) | • Sicrhau bod pecynnau gollyngiadau digonol a phriodol ar gael a bod digon o stoc, ar gyfer yr holl weithgareddau<br>• Cefnogi ymateb i ollyngiadau mewn perthynas â phrosiectau (gyda chontractwr cysylltiedig) a/neu weithrediadau<br>• Hysbysu'r holl gontractwyr ar gampysau'r Brifysgol am ofynion ymateb i ollyngiadau<br>• Sicrhau mynediad at fapiau draenio i bobl sy'n ymateb i ollyngiadau |
| Contractwyr[1] | • Cyfrifoldeb am osgoi gollyngiadau a'u rheoli'n unol â gweithdrefn rheoli gollyngiadau'r Brifysgol (y ddogfen hon)<br>• Sicrhau bod ganddynt becynnau gollyngiadau/PPE priodol a'u bod yn gymwys i ymateb i ollyngiadau a achoswyd gan eu gweithgareddau<br>• Rheoli unrhyw wastraff a grëwyd o ganlyniad i glanhau ar ôl gollyngiad, yn unol â rheoliadau<br>• Cysylltu â'u cyswllt yn y Brifysgol (e.e. Swyddog Prosiect, Gwasanaethau Technegol, neu aelod o'r Gyfadran) i'w hysbysu am ollyngiad |
| Yr holl staff a myfyrwyr | • Cymryd rhan ragweithiol mewn hyfforddi<br>• Cyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau niweidiol pan fydd gollyngiad yn digwydd<br>• Asesu risg gweithgareddau, gan gynnwys asesu a oes potensial am ollyngiad a sut byddid yn ymateb i hyn, yn unol â gweithdrefn rheoli gollyngiadau'r Brifysgol (y ddogfen hon)<br>• Gofyn am gymorth ychwanegol gan Reolwyr y Gyfadran/UGP lle nodir risg a lle mae darpariaeth leol am ollyngiadau yn annigonol |

[1] Mae hyn yn cynnwys partïon allanol a benodir i ddarparu gwasanaethau mewn digwyddiadau, e.e. gwerthwyr bwyd

# 4 Dogfennau Perthnasol

- **Cofrestr Agweddau ac Effeithiau:** Mae agweddau amgylcheddol perthnasol ac effeithiau amgylcheddol cysylltiedig wedi'u hamlinellu'n fanwl yng nghofrestr y Brifysgol.
- **Cynllun Rheoli Digwyddiadau (IMP)**: Fframwaith sy'n amlinellu ymateb y Brifysgol i amrywiaeth o sefyllfaoedd, ei gymhwysiad drwy Dîm Ymateb i Ddigwyddiadau (IRT) a Thîm Rheoli Digwyddiadau (IMT).
- **Gweithdrefnau Rheoli Gollyngiadau Lleol**: Mae gan Gyfadrannau/UGP weithdrefnau rheoli gollyngiad penodol ar gyfer digwyddiadau llygredd a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r UGP. Gellir cynnwys y rhain yng Nghynllun Rheoli Digwyddiad y Gyfadran/UGP.

# 5 Y Broses

## 5.1 Atal

Dylai'r prif ffocws fod ar atal gollyngiadau a rhoi mesurau rheoli ar waith i leihau'r tebygolrwydd o ollyngiad. Wrth wneud gwaith cynllunio prosiect ac asesu risg, dylech chi ystyried gollyngiadau sy'n ganlyniad sefyllfaoedd anarferol/brys, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Difrod i gynhwysyddion storio
- Tân
- Gorlenwi cynhwysyddion (yn enwedig tanciau neu ICB)
- Methiant cyfarpar/ pibellau
- Camgymeriad dynol
- Gweithred faleisus/fwriadol
- Amodau hinsoddol neu dywydd, e.e. llifogydd, gwyntoedd cryfion
- Cludiant cywir ar gyfer symud gwastraff cemegol i'r storfa, e.e. troli addas a diogel sy'n gallu cludo'r deunydd yn ddiogel

Rhaid cynnal a chofnodi asesiadau risg ar gyfer defnyddio sylweddau a/neu offer sydd â'r potensial i arwain at ollyngiad. Gellir gofyn am gymorth a chyngor gan y Tîm Cyfrifoldeb Corfforaethol.

Rhaid i'r holl asesiadau risg ystyried y model cysylltiad rhwng ffynhonnell, llwybr a derbynyddion llygredd[2], Ffigur 1.




**Ffigur 1: Model**

Lle caiff ei nodi'n angenrheidiol, dylid paratoi pecynnau gollyngiadau, eu cadw mewn lleoliad diogel ac addas, a'u hailgyflenwi fel y bo angen. Dylid cynnal archwiliadau

[2]Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd mwy nag un posibilrwydd ar gyfer pob cam. Gall y Tîm Cynaliadwyedd ddarparu rhagor o wybodaeth am y modwl hwn.

achlysurol i sicrhau bod y cynnwys yn addas ac yn gyflawn, a bod y PPE priodol ar gael un yr un lle. Bydd cynnwys pecyn gollyngiadau (h.y. math a nifer o ddeunyddiau i ymdrin â’r gollyngiad) yn dibynnu ar fath, cyfaint a lleoliad y sylwedd/deunydd a allai gael ei ollwng.

Dylid cyfleu canfyddiadau'r asesiad risg i bawb sy'n rhan o'r gwaith/prosiect.

## 5.2 Ymateb i Ollyngiadau

Pan ddarganfyddir gollyngiad, dylai'r ymateb brys gyd-fynd â'r canlynol:

**ATAL → CYFYNGU → HYSBYSU → GLANHAU**

1. **Nodi'r gollyngiad/peryglon:** Rhaid nodi'r deunydd sydd wedi'i ollwng drwy:
   - asesiad risg a/neu daflenni data diogelwch (SDS), y mae'n rhaid iddynt fod ar gael drwy Quartzy, cynrychiolwyr y Gyfadran/UGP neu barti allanol, e.e. cyflenwr olew gwresogi. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosib nodi a chael gofynion penodol ar gyfer glanhau'r gollyngiad yn ddiogel (e.e. pecyn gollyngiad, PPE etc.).
   - Cadarnhad gan berson cyfrifol yn y maes, e.e. Prif Ymchwilydd neu Arweinydd Contractwr
   - Os yw'r gollyngiad yn beryglus (gweler asesiadau risg/SDS), cysylltwch â'r Tîm Ymateb i Ollyngiadau yn y Gyfadran a'r Tîm Diogelwch ar unwaith
2. **Atal digwyddiadau eilaidd**:
   - Os oes risg o danio, rhaid diffodd yr holl ffynonellau tanio hysbys , os yw'n ddiogel gwneud hynny
   - Cymerwch gamau i ddiogelu bywyd, gan gynnwys eich bywyd chi. Os yw'n bosib, symudwch bobl wedi'u hanafu i ffwrdd o'r perygl ac os oes gennych chi sgiliau cymorth cyntaf, defnyddiwch nhw os yw hi'n ddiogel gwneud hynny
   - Os yw'n bosib, caewch yr ardal – gofynnwch i'r staff diogelwch gau'r ardal a halogwyd, gan gadw pobl o leiaf 5 metr i ffwrdd o'r gollyngiad
   - Peidiwch â gadael ardal y gollyngiad – dylai rhywun fod yn bresennol yn barhaus nes bod y gollyngiad wedi cael ei lanhau a’r perygl posib ei ddileu
3. **Ceisiwch atal y gollyngiad wrth ei darddiad:** Ceisiwch leihau neu atal y gollyngiad (mae enghreifftiau isod, os yw hi’n ddiogel a phan fydd hi’n ddiogelgwneud hynny) a sicrhau bod ymatebwyr eraill yn ymwybodol o'r camau a gymerwyd[3]
   - caur falfiau
   - defnyddio dulliau cyfyngu eilaidd, e.e. hambwrdd diferion, cynhwysydd mwy
   - cau tarddiad y gollyngiad, e.e. lenwi twll â thâp giaffar

[3] Fel rhan o’r gwaith glanhau/rheoli ar ôl y digwyddiad, efallai y bydd angen atebion mwy parhaol

- symud cynhwysydd, e.e. ei droi 90° neu ei roi ar ongl fel na fydd modd i'r sylwedd ddianc mwyach

4. **Gofynnwch am gymorth os oes angen:** Os na fydd gennych chi'r deunyddiau a'r adnoddau priodol i ymateb yn effeithiol. Yn achos gollyngiadau sy'n gysylltiedig â Chyfadran, cysylltwch â'r tîm ymateb i ollyngiadau yn y Gyfadran. Ar gyfer gollyngiadau allanol eraill, cysylltwch â'r Tîm Diogelwch.
    - Dywedwch wrth y Tîm Diogelwch drwy ffonio 333 (neu o rif ffôn symudol – 01792 604271 ar Gampws Singleton, a 01792 606010 ar gyfer y Bae. Y tu allan i oriau gwaith, gellir ffonio'r tîm diogelwch ar 01792 205678) a rhoi'r wybodaeth ganlynol:
        i. Lleoliad y gollyngiad
        ii. Y sylwedd sydd wedi'i ollwng (os yw'n hysbys neu wedi'i amau)
        iii. Graddfa'r gollyngiad (brasamcan o gyfaint)
        iv. Cwmpas y gollyngiad, e.e. a yw'r sylwedd wedi mynd i'r system ddraenio?
    - Os tybir bod adnoddau'r Brifysgol yn annigonol, rhaid i'r Tîm Diogelwch gysylltu â'r cyflenwr cymorth allanol (Ambipar) drwy ffonio 01202 653558.
    - Cymerwch yr holl gamau rhesymol i atal mynediad i'r ardal (caewch yr ardal) ac aros i gymorth gyrraedd
5. **Cyfyngu'r gollyngiad:** Gan ddefnyddio'r pecynnau gollyngiad a'r PPE priodol (os yw'n ddiogel gwneud hynny), rhowch ddeunyddiau ymdrin â gollyngiad o amgylch y sylwedd a ollyngwyd i'w amsugno a/neu ei atal rhag ymledu ymhellach
    - Dylid sefyll yn erbyn y gwynt, i leihau'r tebygolrwydd o anadlu'r sylwedd i mewn
    - Dylid gosod padiau a gronynnau ar y deunydd a ollyngwyd ac o'i amgylch
    - Ychwanegwch ragor o ddeunydd os yw'n ymddangos bod y sylwedd a ollyngwyd yn treiddio drwy'r deunyddiau amsugno
    - Os yw'n bosib ac yn ddiogel gwneud hynny, trosglwyddwch y sylwedd o'r cynhwysydd sy'n arllwys/sydd wedi torri i gynhwysydd arall
    - Rhowch y deunydd amsugno mewn bag a'i labelu i'w waredu'n ddiogel (gweler pwynt 9)

    Dylid cynnwys y gollyngiad cyn gynted â phosib, yn ddelfrydol wrth y tarddiad, yn agos at y tarddiad neu ar yr arwyneb. Dylai atal gollyngiad rhag mynd i mewn i ddraeniau neu ddyfrgyrsiau lleol fod yn flaenoriaeth, i atal llwybr rhag cael ei greu ac effaith bosib ar ffynonellau ehangach.
6. **Atal colled i ddraeniau a dyfrgyrsiau** Rhaid asesu a yw sylwedd a ollyngwyd wedi arllwys i ddraeniau gerllaw, neu a oes potensial am hynny (os yw'n ddiogel/pan fydd yn ddiogel gwneud hynny)
    - Eisoes wedi arllwys i ddraen: Rhaid asesu'r opsiynau i atal halogi'r dyfrgwrs a rhwydwaith y draeniau ymhellach. Rhaid gosod matiau /gorchuddion draen ar ddraeniau o hyd i atal rhagor rhag arllwys.

- Potensial arllwys i ddraeniau: Defnyddiwch fatiau /orchuddion draen ar agoriadau draeniau gerllaw. Defnyddiwch sanau gollyngiad i ddargyfeirio deunydd a ollyngwyd o lif y sylwedd neu i'w atal
- Potensial arllwys mewn dyfrgwrs: Defnyddiwch rwystrau ar dyfrgyrsiau agored, e.e. pwll yr Ardd Fotaneg. Defnyddiwch sanau gollyngiad i ddargyfeirio deunydd a ollyngwyd o lif y sylwedd neu i'w atal

7. **Hysbysu:** Os yw sylwedd wedi gollwng i ddraen/dyfrgwrs allanol, bydd angen hysbysu ymhellach:
    - Rhaid i'r tîm diogelwch hysbysu'r darparwr cymorth allanol (Ambipar) drwy ffonio 01202 653558 i wneud gwaith adferol, os oes angen
    - Bydd angen hysbysu'r awdurdodau allanol am y digwyddiad (gwelerTabl 1). Yn ystod oriau swyddfa, bydd y Tîm Cynaliadwyedd (Pennaeth Cynaliadwyedd) yn hysbysu'r awdurdodau ac yn cydlynu gwaith ymgysylltu. Y tu allan i'r oriau hyn, bydd y tîm Diogelwch yn cydlynu, yn unol â'r arweiniad yn y Cynllun Rheoli Digwyddiad.

### Tabl 1: Partïon â diddordeb

| Parti Allanol | Cyswllt | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Dŵr Cymru** | 0800 085 3968<br>(0800 052 0130) | Rhaid i gynrychiolydd Cyfrifoldeb Corfforaethol gysylltu os oes perygl carthffrwd fudr |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | 0300 065 3000 | Rhaid i gynrychiolydd Cyfrifoldeb Corfforaethol gysylltu ym mhob achos lle mae potensial o niwed i'r amgylchedd naturiol |
| **Cyngor Abertawe** | 01792 635600<br>Y tu allan i oriau:<br>01792 636595 | Rhaid i gynrychiolydd Cyfrifoldeb Corfforaethol gysylltu pan fydd risg y gallai'r sylwedd a ollyngwyd fynd i'r pwll ym Mharc Singleton (ochr Pub on the Pond y campws) |
| **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | 01639 686868 | Rhaid i gynrychiolydd Cyfrifoldeb Corfforaethol gysylltu os oes risg y gallai'r sylwedd a ollyngwyd fynd i'r amgylchedd morol neu'r SoDdGA |

8. **Glanhau:** Gallai sylweddau hylifol a deunyddiau solet gan gynnwys powdrau gael eu gollwng yn y Brifysgol.
    - Dylid gwneud y gwaith glanhau yn unol â'r asesiad risg, gan wisgo'r PPE perthnasol a defnyddio'r pecyn gollyngiad cywir a nodwyd gan staff cymwys
    - Peidiwch â cherdded drwy'r gollyngiad os gallwch osgoi gwneud hynny a chadwch yr ardal wedi'i halogi mor fach â phosib.
    - Ataliwch ddŵr golchi neu ysgubion rhag cyrraedd draeniau neu dir heb ei drin

- Efallai y bydd angen glanhau'r ardal ymhellach. Bydd y tîm Diogelwch yn darparu a/neu'n trefnu cymorth ychwanegol, fel y bo angen.

9. **Gwaredu gwastraff deunydd a ollyngwyd:** Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff peryglus a chael gwared arno, yn unol â gofynion cyfreithiol.
   - Rhowch y deunydd a gynhyrchwyd yn y bagiau a ddarperir yn y pecyn gollyngiad. Gallai hyn gynnwys sylweddau cychwynnol a ollyngwyd, amsugnwyr a ddefnyddiwyd, PPE a ddefnyddiwyd etc.
   - Trosglwyddwch y rhain i gynhwysydd addas i'w storio, e.e. drymiau â chaead clip[4]
   - Defnyddiwch y 'Weithdrefn Defnyddwyr Storfa Gwastraff Cemegol[5]' i waredu'r gwastraff. Mae hyn yn cynnwys e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk i'w hysbysu am y deunyddiau gollyngiad y mae angen eu storio yn y storfa gwastraff cemegol (a leolir ar y ddau gampws). Codir ffi ar y Cyfadrannau/UGP perthnasol am waredu a chaiff y ffi hon ei chodi'n fewnol.
   - Os yw'r cyfaint yn rhy fawr neu os nad yw'r deunydd wedi'i gyfyngu'n ddigonol, efallai y bydd angen casgliad gwastraff arbenigol y bydd y Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu yn ei reoli.

### 5.3 Adolygu digwyddiadau

Pan fydd y digwyddiad wedi'i drin yn briodol a'r ardal wedi'i hadfer i'r fath raddau nad oes perygl brys i'r amgylchedd nac i iechyd a diogelwch mwyach, dylid cofnodi'r gollyngiad ar y system digwyddiadau niweidiol (Rhowch Wybod Amdano![6]). O ganlyniad, cynhelir ymchwiliad gan y Tîm Cyfrifoldeb Corfforaethol, gan nodi mesurau lliniarol, cyfrifoldeb ac amserlenni am y camau gweithredu. Bydd mesurau'n mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad a sut i atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

## 6 Effeithiau a chamau gweithredu yn sgil diffyg cydymffurfiaeth

Gallai methu cydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at:

- Fethu cydymffurfio â gofynion EcoCampus a safon ISO 14001:2015.

Trafodir diffyg chydymffurfiaeth â'r weithdrefn hon yn y weithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Unioni ac Atal.**

[4]Oni bai y cewch chi eich cynghori gan y tîm Cynaliadwyedd i ddefnyddio dulliau rheoli gwastraff eraill, e.e. cynhwysyddion priodol ffit tynn, nad ydynt yn arllwys

[5]Dolen: https://www.swansea.ac.uk/media/8.1.5-gweithdrefn-defnyddio'r-storfa-gwastraff-cemegol.pdf

[6]Dolen: https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/diolgelwch-ar-y-campws-/iechyd-a-diogelwch/report-it/

# 7 Rheoli Fersiwn

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddaru |
|---|---|---|
| Mis Mai 2021 | 4 | Ehangu cyfrifoldebau, newid darparwr gwasanaeth allanol, cyfeirio at atal gollyngiadau, newidiadau strwythurol |
| | | |
| | | |